



ABERDYFI

Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth
Chambers Conservation Ltd

Argraffiad

Argraffiad: Fersiwn Terfynol



Chambers Conservation Ltd

Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif 09787239

Cyfeiriad cofrestredig: Mercury House, High Street, Tattenhall, CH3 9PX

www.chambersconservation.com

Cynnwys

Y Rhan Gyntaf: Gwerthusiad Ardal Gadwraeth

- 1.0 Cyflwyniad
 - 1.1 Sut mae Defnyddio'r Ddogfen Hon
 - 1.2 Golwg Cyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth
- 2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig
- 3.0 Llinell Amser Hanesyddol
- 4.0 Dadansoddiad Gofodol
 - 4.1 Ffurf a Threfn
 - 4.2 Golygfeydd Allweddol
 - 4.3 Mannau Gleision a Choed
- 5.0 Cymeriad
 - 5.1 Trosolwg
 - 5.2 Cymeriad Pensaernïol
 - 5.3 Ardaloedd Cymeriadol
 - 5.4 Deunyddiau
 - 5.5 Ffiniau
 - 5.6 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill
- 6.0 Asedau Hanesyddol
 - 6.1 Dynodedig
 - 6.2 Annynodedig
- 7.0 Hanes Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)
- 8.0 Asedau Dynodedig Eraill
- 9.0 Bioamrywiaeth

Yr Ail Ran, Cynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth.

- 1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CGCB
- 2.0 Deall y Materion
 - 2.1 Cyflwr
 - 2.2 Adeiladau mewn Perygl
- 3.0 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.
- 4.0 Rheolaeth Gadarnhaol
 - 4.1 Newid Ffiniau
 - 4.2 Diogelwch Polisi Lleol a Chenedlaethol
 - 4.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth
 - 4.4 Cynaliadwyedd
 - 4.5 Bioamrywiaeth
- 5.0 Ymgynghoriad



Y RHAN GYNTAF: GWERTHUSIAD ARDAL GADWRAETH

1.0 Cyflwyniad

1.1 Sut mae defnyddio'r ddogfen hon

- 1.1.1 Dylid darllen y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth yma ar y cyd â'r ddogfen **Dogfen Cyflwyno a Pholisi Cynllunio**, y gellir ei lawrlwytho o wefan y Parc Cenedlaethol. Mae'r ddogfen honno'n cynnwys eglurhad o ddiben a methodoleg y Gwerthusiad, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i hanes, tirwedd, adeiladau a ffurfiau anheddiad, a'r cefndir o ran cynllunio a deddfwriaeth.
- 1.1.2 Yn ogystal â'r Cynllun Rheolaeth sy'n mynd gyda'r Gwerthusiad Ardal hwn, cafodd dogfen bellach **Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol**, ei pharatoi er mwyn ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd presennol, a rhoi cyngor ar sut i wella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol a'r rhai o bwysigrwydd lleol, heb niweidio eu cymeriad arbennig na'u perfformiad technegol.

1.2 Golwg cyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth

- 1.2.1 Diffinnir hyd a lled ardal yr astudiaeth yn rhannol gan ffin yr Ardal Gadwraeth (gw. Ffig. 03), ond cynhwyswyd y cyffiniau agos (gan gynnwys yr ardaloedd tirwedd gerllaw) er mwyn deall y cyd-destun ehangach a phenderfynu a fyddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn addas.
- 1.2.2 Dylid sylwi y defnyddir sillafiadau Cymraeg (Aberdyfi) a Saesneg (Aberdovey) enw'r pentref yn rheolaidd, ond er mwyn symplrwydd cyfeirir at y cyntaf yn yr adroddiad hwn. Yn achos enwau strydoedd ac adeiladau cynhwysir y rhai a ddefnyddir amlaf, ond nodir y dewis arall onid yw'n eglur.

Lleoliad a Gosodiad

- 1.2.3 Mae Aberdyfi'n bentref ac yn gyrchfan glan môr yn aber Dyfi wrth iddi gyrraedd dyfroedd Bae Ceredigion. Mae deng milltir i'r gorllewin o Fachynlleth a phedair milltir i'r de o Dywyn, ac o fewn sir bresennol Gwynedd, ond yn hanesyddol yn rhan o Sir Feirionnydd.




01 Penhelyg



02 Yr olygfa o'r Ardal Gadwraeth i Aber Afon Dyfi

- 1.2.4 Gosodir y pentref yn drawiadol yn aber Dyfi wrth iddi gyrraedd môr Bae Ceredigion. Y tu cefn i'r pentref mae'r dirwedd yn codi'n fryniau cymedrol, o ba rai mae golygfeydd trawiadol. Mae'r bryniau'n gymysgedd o goetir, gwaun a brigiadau cerrig. Ar ochr y glannau mae twyni tywod a thraethellau mwd helaeth.
- 1.2.5 Dynodwyd yr Ardal Gadwraeth ym 1979.



Ardal Gadwraeth Bresennol
1:5000 ar A4

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

- 2.1.1 Diddordeb hanesyddol Aberdyfi yw ei fod yn gyrchfan glan môr bychan a ddatblygodd o'i statws blaenorol megis porthladd. Bernir ei fod yn gyrchfan deniadol i ymwelwyr ac yn lle dymunol i fyw ynddo, gyda phobl wedi'u denu i'w osodiad eithriadol yn y dirwedd, ansawdd y goleuni a golygfeydd trawiadol.
- 2.1.2 Mae'r pentref wedi cadw ei ffurf dechrau'r 20^{fed} ganrif ac y mae'r mwyafrif o'i adeiladau yn dyddio o'r cyfnod hwn neu ynghynt. Mae gan adeiladau gymeriad chwareus a gysylltir yn aml â lleoliad glan môr, gan gynnwys lliwiau a ffurfiau amrywiol yn ogystal â llawer o fanylion pensaernïol.
- 2.1.3 Er mai cymeriad esthetaidd cyrchfan o ddiwedd y 19^{eg} ganrif a dechrau'r 20^{fed} sydd iddo, mae llawer o adeiladau hŷn sydd o ddiddordeb hanesyddol ac yn arwydd o'i orffennol megis porthladd.
- 2.1.4 Mae'r rhestai preswyl uchel ar hyd rhes glan y môr yn drawiadol, ond maent yn gymysg ag adeiladau unigol o gymeriad gwrthgyferbyniol, gan gynnwys capeli, gorsafodd bad achub a gwestai, yn ogystal â'r Sefydliad Llenyddol anarferol. Erys llawer o dai mawrion o ansawdd da â manylion pensaernïol cywrair ar res glan y môr ac yn uwch i fyny'r llethr y tu cefn i'r pentref.
- 2.1.5 Prif nodwedd pentref Aberdyfi yw ei osodiad yn nhirwedd ryfeddol aber Dyfi, sy'n enwog am ansawdd ei goleuni a'i bywyd gwyllt diddorol fel ei gilydd.
- 2.1.6 Mae'r ardal gadwraeth yn hir ac yn ymestyn i gynnwys pentref llai Penhelyg. O fewn y daith o ryw filltir mae'r glannau'n ymdroelli'n raddol, gan gynnig sawl golygfa wahanol o'r adeiladau a'r rhesi glan môr y tu hwnt.



04a Westhaven yn Rhos Glan Dyfi



04b Adeiladau hŷn, llai ar Copperhill Street / Sgwâr y Farchnad efo'r ysgol flaenorol y tu cefn

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

Rhufeinig


Canoloesol

Artistiaid
y18eg
Ganrif a
Thwristiaeth
Gynnar

- 3.1.1 Ymdrinnir yn fanwl â hanes Aberdyfi mewn mannau eraill. Ni fwriedir i'r crynodeb isod roi ond cyd-destun yr arfarniad a'r asesiad diddordeb arbennig.
- 3.1.2 Ymddengys nad oes fawr o dystiolaeth am hanes cynnar Aberdyfi. Mae rhai arwyddion cysylltiadau Rhufeinig gerllaw, a gwyddys yr adeiladwyd anheddiad milwrol eang Cefn Caer ym mhen cefnen yn ymyl Pennal, ymhellach i fyny'r aber.¹
- 3.1.3 Gwyddys rhagor am gylch Aberdyfi yn y canol oesoedd. Ym 1216 cynhaliodd Llywelyn Fawr gyfarfod cyngor yno.
- 3.1.4 Mae dyfalu ynghylch safle dichonol caer neu ryw fath o gastell. Mae Pen y Bryn yng nghanol y dref yn lleoliad amlwg, ac y mae'n bosibl y bu caer yno yn y 1150au,² ond tybir mai safle tebycaf castell yw'r cloddiau pridd ar ochr draw'r afon yn ymyl Glandyfi.
- 3.1.5 Cofnodwyd croesfan fferi yn y 15^{fed} ganrif, ond eto ni wyddys ei hunion leoliad. Ychydig adeiladau fu yn y cylch hyd yr 16^{eg} ganrif, o leiaf. Yn ôl adroddiadau roedd yr harbwr yn fychan ac yn beryglus i'w ddefnyddio.
- 3.1.6 Erbyn y 18^{fed} ganrif roedd y masnachu trwy'r pentref wedi cynyddu'n sylweddol. Allforid plwm, pren a chynnyrch fferm, a mewforid yd, glo a phren. Erbyn 1808 disgrifiodd y teithiwr Fenton ei ymweliad, a'r gweithfeydd copr y tybir y'u ceid yn ardal Copperhill Street: 'Gadewais Ynysmaengwyn yng nghwmni Mr Corbet a'r Boneddigesai i Aberdyfi, lle dangoswyd imi ei Waith Copr, yn segur yn awr hyd nes y ceir canlyniad ei gloddio am Lô fel y gall doddi yn y man a'r lle. Mae'r Gweithfeydd ar y gefnen o Fryniau geirwon uwch y Porthladd ac yn union y tu ôl i'r Tai. Mae peth wmbredd o Gopr, eisoes wedi'i baratoi, yn gorwedd ar y Lan. Yn llawer i le ceir hen Geudyllau, y tybir eu bod yn Weithfeydd y Rhufeiniaid ...'

¹ <https://coflein.gov.uk/en/site/300159/>

² Lewis, Hugh (1997). Aberdyfi: a chronicle through the centuries



05 Rhan o fap Lewis Morris 1748, yn disgrifio Aberdyfi'n dref ac yn dangos casgliad o adeiladau



06 Ysgythriad o 1860

19eg Ganrif

- 3.1.7 Yn fuan wedyn, ym 1838, disgrifiodd Lewis Aberdyfi'n 'borthladd môr ac ymdrochfa', gan ddynodi dyfodiad y twristiaid, pan adeiladwyd gwestai a thai llety. Adeiladwyd Eglwys Sant Pedr yn gapel anwes ym 1832. Adeiladwyd ffordd y glannau ym 1828, ac fe'i defnyddir hyd y dydd hwn.
- 3.1.8 Dengys mapiau degwm 1841 sribyn o ddatblygu ar hyd y lan sy'n dod i ben tua hanner ffordd i Benhelyg, lle ni ddangosir ond pum adeilad. Dangosir Copperhill Street ynghyd â dim ond ychydig adeiladau eraill y tu ôl i'r lan. Dangosir 'gerddi' yn gefnlen i'r pentref.
- 3.1.9 Roedd adeiladu llongau'n ddiwydiant pwysig yn yr aber a bu'r iardiau yn Aberdyfi a Phenhelyg yn arbennig o bwysig tua 1840-1880. Dechreuodd dyfodiad y rheilffyrdd yn y 1860au ddirywiad y fasnach adeiladu llongau wrth i'r rheilffyrdd ddod yn fodd cludo mwy effeithiol.
- 3.1.10 Parhaodd diwydiannau eraill i ryw raddau. Dengys map AO 1900 chwareli ym Mhenhelyg.
- 3.1.11 Yn y 19^{eg} ganrif adeiladwyd amryw o eglwysi a chapeli yn Aberdyfi, a gwelwyd dyfodiad pwysig y mudiad dirwest. Dengys ffotograff o 1885 gynulliad mawr o flaen capel Bethel, ac un arall dyddiedig 1867 Westy Dirwest ar Sgwâr y Capel a thafarn yn Copperhill Street. Sefydlwyd y Sefydliad Llenyddol y pryd hwn, hefyd.
- 3.1.12 Yng nghanol y 19^{eg} ganrif llanwyd y mornant ym Mhenhelyg, a ddefnyddid yn iard gychod am gyfnod byr, ac adeiladwyd rhes hir o dai ar y tir a adenillwyd. Crëwyd darn tir o'r glannau pan gyrhaeddodd y rheilffordd, hefyd, er mwyn cael cei yn ymyl canol y pentref. Defnyddir hwn yn dai bach cyhoeddus ac yn swyddfa'r harbwrfeistr, bellach.
- 3.1.13 Ddiwedd y 19^{eg} ganrif a dechrau'r 20^{fed} adeiladwyd tai ar leiniau helaeth ar y llethr serth y tu ôl i'r pentref, ac adenillwyd rhagor o dir ar hyd glan yr aber.

20fed ganrif



07 Map degwm Aberdyfi - 1841




08 Map degwm Penhelyg - 1841

4.0 Dadansoddiad Gofodol

4.1 Ffurf a Threfn yr Anheddiad

- 4.1.1 Mae ffurf bresennol y pentref yn deillio i raddau helaeth o gyfnod o ehangu sylweddol gan y 19^{eg} ganrif. Datblygodd yn null llinellol ar hyd ffordd y glannau gydag ymgyrnod yn ardal Sgwâr y Capel / Copperhill Street a grŵp bach ym Mhenhelyg. Mae ardal adeiledig yn y gorllewin a ddatblygwyd yn ddiweddarach, yn yr 20^{fed} ganrif.
- 4.1.2 Byddai'r dirwedd wedi dylanwadu'n fawr ar ffurf yr anheddiad. Er nad oes tystiolaeth bendant, mae'n debyg y darparasai Ben y Bryn olygfan amddiffynnol naturiol, ac fe alla mai dyma'r rheswm gwreiddiol dros union leoliad yr anheddiad. Buasai amgylchiadau llanwol cymhleth wedi pennu safleoedd ar gyfer y groesfan fferi wreiddiol hefyd, yn ogystal â'r cei a'r gorsafoedd badau achub.
- 4.1.3 Mae'r llethr y mae'r pentref yn swatio yn ei gesail yn dylanwadu ar yr anheddiad yn nhermau darparu microhinsodau, fel ym Mhenhelyg, lle gall coed a thyfiant bras oroesi mewn amgylchedd glan môr sydd fel arall yn arw. Mae hyn wedi denu datblygiad. Mae llinell donnog y glannau'n darparu golygfannau naturiol: lluniwyd rhai o'r adeiladau godidocach (fel Westhaven) i fod mor amlwg ag yr oedd modd.
- 4.1.4 Mae'r datblygu o'r 19^{eg} ganrif ym mhen gorllewinol yr ardal gadwraeth yn drawiadol yn ei fod yn fur parhaus, bron, o resi tai 3½ llawr. Wrth i Res Glandyfi ddod yn Seaview Terrace, erys yr adeiladau'n gymharol uchel, ond y maent mewn grwpiau llai ac y mae mwy o amrywiaeth ffurf, gydag adeiladau eglwysig a gwestai / tai llety / tafarndai, er enghraifft. Ymhellach i'r dwyrain daw adeiladau'n llai ac â rhagor o ofod rhyngddynt, yn gyffredinol.
- 4.1.5 Ar ochr glan môr y rheilffordd mae'r adeiladau mewndirol yn rhesi 2 neu 3 llawr, gan fwyaf, gyda Sgwâr y Capel yn ganolbwynt, lle mae'r ffurf yn ymagor ychydig. Nodwedd anarferol ardal y Sgwâr yw rhesi tai cyflin yn union y tu ôl i un arall, â dim ond llwybr main ar gyfer mynediad. Y tu hwnt i'r rheilffordd mae'r anheddiad yn ymagor yn gyflyn, ac y mae gweddill tai y rhan honno o'r ardal gadwraeth yn wasgaredig gyda gerddi mawrion mewn lonydd â throeon ynddynt.



09 Cyfarfod mudiad dirwest y tu allan i gapel Bethel ym 1885



10 Gwesty Dirwestol Gwalia ar Sgwâr y Capel ym 1867 – gellir gweld y llinell rheilffordd newydd yn y cefndir

- 4.1.6 Gan symud tua'r dwyrain daw dyfnder yr anheddiad yn llai hyd nes cyrraedd Penhelyg, lle mae'n ehangu ychydig i fyny dyffryn bach. Mae yma restai a rhesi o dai heb fawr o ofod rhyngddynt, ond oll wedi'u gosod yn erbyn cefndir gwyrdd.

4.2 Golygfeydd allweddol

- 4.2.1 O fewn yr ardal gadwraeth ceir sawl golygfa allweddol sy'n darlunio naill ai ddatblygiad hanesyddol y pentref, yn caniatáu gwerthfawrogi nodweddion neilltuol neu adeiladau allweddol, neu'n rhoi amgylchedd cywir o'i ddatblygiad o fewn y tirlun ehangach. Mae golygfeydd eraill yn gipolygon pwysig rhwng adeiladau neu'n nodweddion pwysig sy'n cyfrannu at amgylchedd o'r ardal neu ei chymeriad.
- 4.2.2 Mae golygfeydd naill ai'n statig (golygfa gyfeiriadol benodol) neu'n ddynamig, gan gynnwys maes golwg o fan neilltuol.
- 4.2.3 Mae'r rhain fel a ganlyn (gw. Ffig. 14 hefyd):
- A** Golygfeydd o'r twyni tywod
 - B** Golygfeydd o'r maes parcio ar draws y traeth a'r aber y tu draw
 - C** Golygfa o'r traeth
 - D** Golygfeydd o'r llwybr sy'n mynd i'r gogledd o linell y rheilffordd
 - E, F ac G** Golygfeydd eang o Ben y Bryn
 - H** Golygfeydd i lawr Copperhill Street
 - I** Golygfeydd o res Capel Bach tros y dref
 - J** Golygfa i lawr Bryn Mwyn ag adeiladau llethr ar draws y pentref yn y cefndir
 - K** Golygfeydd i lawr rhodfa glan y môr tua Seaview Terrace
 - L** Golygfa i lawr grisiau o Stryd yr Eglwys â'r dirwedd glan môr yn y pellter
 - M** Golygfeydd i law rhodfa glan y môr o Res Glan Dyfi
 - N** Golygfa fer i fyny at Gapel y Tabernacl trwy fwllch yn yr adeiladau



11 Golygfa o Ben y Bryn tua'r gorllewin (E)




12 Golygfa rhes Capel Bach dros y dref (I)


- O** Golygfeydd i lawr Stryd yr Eglwys â thirwedd y glannau yn y cefndir
- P** Golygfeydd eang o Hopeland Road ar draws y pentref
- Q** Golygfeydd eang o Stryd yr Eglwys ar draws y pentref â thirwedd y glannau yn y cefndir
- R** Golygfeydd glan môr o Frynhyfryd
- S** Golygfeydd y glannau / yr aber o'r llwybr cyfochrog ag Aberdovey Hillside Village
- T** Golygfeydd y glannau / yr aber o'r llwybr cyfochrog â Dyfi Heights
- U** Golygfeydd eang o Terrace Road o du blaen Penhelyg â'r aber yn y cefndir
- V** Golygfeydd o'r aber o Res Penhelyg / llwybr y rhodfa
- W** Golygfeydd o'r adeiladau ar Ffordd Penhelyg wrth iddi droi'r gornel o Res Penhelyg / llwybr y rhodfa
- X** Golygfeydd o Ffordd Penhelyg tua'r gorllewin ar draws rhes glan y môr
- Y** Golygfeydd pell o ar draws yr aber



13 Golygfeydd o'r llwybr cyfochrog â Dovey Heights (T)



Golygfeydd Allweddol
1:5000 ar A4



4.3 Mannau Gleision a Choed

- 4.3.1 Yn gyffredinol mae mannau gleision a choed Aberdyfi yn adlewyrchu ei chymeriad arfordirol, agored i'r tywydd. Ledled y dref mae tir glas cyffredinol o gwmpas Pen y Bryn ond nid yw hyn yn cynnwys coed trawiadol, dim ond eithin a phrysgwydd a all oroesi yn y pridd bas sy'n orchudd rhannol ar y brigiad caregog.
- 4.3.2 Ar ochr ogleddol y rheilffordd mae coedlan a phlannu cyffredinol mewn man nas datblygwyd. Er na wyddys math na chyflwr y coed hyn (gan nad oed mynediad cyhoeddus atynt), ychwanegant at gymeriad yr ardal gadwraeth trwy fod yn doriad gweledol rhwng adeiladau hŷn canol y pentref a'r tai sengl (sydd yn aml yn rhai cyfoes) sy'n dringo'r llethr.
- 4.3.3 Mae gan dai sengl Hopeland Road erddi sylweddol sydd gan fwyaf yn cynnwys llawer o goed a phrysgwydd. Yma ceir enghreifftiau trawiadol o goed unigol (ffynidwydd, debyg) a blannwyd ar adeg datblygu'r tai, mae'n bosibl. Mae grŵp mwy, sy'n cynnwys pinwydd hefyd, yn ymestyn y tu cefn i'r tai ac o gymorth i ddiffinio ymyl y pentref yn weledol.
- 4.3.4 Mae'r glesni'n cynyddu ymhellach i'r dwyrain tua Phenhelyg. Mae llwybr deniadol yn uwch i fyny sy'n mynd ar hyd ymyl uchaf yr ardal gadwraeth, gan gysylltu dwy ran yr anheddiad. Ar y llethr nesaf at y llwybr ceir cymysgedd o lystyfiant planedig, ffurfiol a'r hyn sy'n tyfu ohono'i hun. Mae bylchau'n darparu golygfeydd ar draws yr aber.
- 4.3.5 Mae cynnydd glesni sylweddol drachefn ym Mhenhelyg. Mae gan y brif res tai erddi preifat twt sy'n ychwanegu at ei gymeriad a'i arwyddocâd. Ar yr ochr ddwyreiniol ceir gardd gyhoeddus hygyrch, fechan (Gerddi Parc Penhelyg) â lawnt a gwaith plannu cymen.
- 4.3.6 Amgylchynir Penhelyg gan lain dwfn o goed a llystyfiant sy'n ymestyn i fyny dyffryn naturiol. Mae'r ardal i'r dwyrain o Nantiesyn (rhan o dir Plas Penhelyg) yn Safle Coetir Hynafol Adferedig. Yn amlwg, plannwyd nifer fawr o goed trawiadol fel rhan o dirwedd hanesyddol ddynodedig, ond a oedd yn un a weithiai â choed coetir traddodiadol a oedd ar gael yn lleol, gellid tybio.



16 Tyfiant glas ar lwybr y llethr rhwng rhan uchaf y dref a Phenhelyg



17 Coeden drawiadol ar Hopeland Road

- 4.3.7 Nid oes Gorchymyn Cadw Coed ond ar gyfer un ardal, ac nid oes dim ar gyfer coed unigol. Yr ardal yw Coedfa, ar Ffordd Garth, a glustnodir yn Ffig. 15 ac yn Adran 8. Nid oes mynediad cyhoeddus ati felly ni wyddys i ba raddau y mae'r coed hyn wedi goroesi.

5.0 Cymeriad

5.1 Trosolwg

- 5.1.1 Yn gyffredinol mae Aberdyfi'n gyrchfan glan môr mewn tirwedd eithriadol. Er mai adeiladau mwy trawiadol ar res glan y môr sy'n rhoi'r argraff gyntaf, mae amgylchedd yr ymwelydd o bersonoliaeth y pentref yn cael ei newid yn gyflym gan gipolygon ar gysylltiadau hanesyddol â phorthladdoedd a diwydiannau lleol trwy dai llai'r gweithwyr. Mae peth o liw a bywiogrwydd rhesi tai glan y môr yn ymestyn at yr adeiladau symlach, hŷn. Mae glesni'n hanfodol i gymeriad y dref, ac y mae'r coed a'r planhigfeydd fel petaent yn ymdreiddio i lawr o'r brynau trwy rannau uchaf y tir anheddol.

5.2 Ardaloedd Cymeriad, Trosolwg

- 5.2.1 Mae Aberdyfi'n rhan o ardal gadwraeth ehangach ac â sawl ardal cymeriad eithaf pendant. Mae diffinio diddordeb arbennig y rhain o fudd i fynegi'r mathau o newidiadau neu ddatblygu a allai fod yn addas neu'n niweidiol yn y dyfodol.
- 5.2.2 Dangosir lleoliadau'r ardaloedd cymeriad hyn ar y map yn Ffig. 21. Wedi hynny cynhwysir cynlluniau manylach o bob un ardal cymeriad, gan gynnwys adeiladau annynodedig ac asedau o ddiddordeb rhifedig.
- 5.2.3 I grynhoi, mae'r ardaloedd cymeriad fel a ganlyn:
- 5.2.4 **Ardal Cymeriad 1** (Penhelyg). Anheddiad agos ar wahân. Ei nodwedd amlycaf yw Rhes Penhelyg a adeiladwyd ar dir a adenillwyd, ond y mae'n cynnwys sawl rhes lai hefyd, yn ogystal â thai unigol yn erbyn cefnlen las.
- 5.2.5 **Ardal Cymeriad 2** (Sea View Terrace East) yw rhan ganol y promenâd. Mae'r adeiladau o raddfa lai, gan fwyaf, â rhesi byrrach a llai o adeiladau tri llawr.



18 Rhan o Safle Coetir Hynafol Adferedig ym Mhenhelyg




19 Rhes Glan Dyfi

- 5.2.6 **Ardal Cymeriad 3** (Rhiw Balkan a Hopeland Road). Mae i'r ardal hon dai gweddol fawr o ddyluniadau unigol mewn gerddi helaeth. Mae ffyrdd â throeon ynddynt a chynlluniwyd yr ardal i wneud y gorau o'r golygfeydd. Mae ôl crefft ar lawer o'r tai, gyda manylion gwerinol syml megis fframiau pren.
- 5.2.7 **Ardal Cymeriad 4** (Sgwâr y Capel). Yn wahanol i weddill y pentref, mae a wnelo'r cymeriad llai â'r lleoliad glan môr ac y mae mwyafrif yr adeiladau o natur fwy swyddogaethol. Mae rhesi tai'n symlach ac yn llai. Mae ychydig adeiladau allweddol ogyrch y Sgwâr.
- 5.2.8 **Ardal Cymeriad 5** (Rhes Glan Dyfi). Amlwg iawn yma yw rhestai mawrion o dai llety 3½ llawr a fywiogir gan ffenestri bae a rendr lliwgar. Cynhwysir y cei hefyd.



20 Copperhill Street o fewn ardal Sgwâr y Capel



5.3 Ardaloedd Cymeriad.

- 5.3.1 Mae Aberdyfi'n Ardal Gadwraeth fwy â sawl Ardal Cymeriad penodol. Ceir mapiau manwl o'r ardaloedd hyn, sy'n dangos eu hasedau anrhestredig, ymhellach ymlaen yn y ddogfen hon.
- 5.3.2 Mae Penhelyg (**Ardal Cymeriad 1**) yn anheddiad agos gwbl ar wahân, wedi'i gysylltu â'r prif bentref gan y ffordd ac ychydig dai'n unig. Oherwydd ei graddfa, Rhes Penhelyg (69) sydd amlycaf i'r golwg. Fe'i hadeiladwyd ar dir a adenillwyd, ar draws y cyfan o'r bae naturiol a ddiffinnir yn awr gan droad y ffordd. Mae'r rhes yn ddau lawr a hanner, ac yn ymddangos yn unfurf o bell, ond o agos gwelir y'i hadeiladwyd mewn sawl cam ac y mae amrywiaeth ym manylion ffenestri dormer a bae, a simneiau, er enghraifft.
- 5.3.3 Ynghudd yn awr y tu ôl i'r rheilffordd a'r rhes tai mae Porthdy Penhelyg (Gradd II rhestredig), sy'n rhes o dri thy o ddechrau'r 19^{eg} ganrif a addaswyd yn ddiweddarach i'w gwneud yn borthdy Plas Penhelyg. Ychwanegwyd fframio pren at y llawr cyntaf, ond tynnwyd hwn ymaith wedi hynny, heblaw ar y talcen.
- 5.3.4 Ar yr ochr orllewinol mae'r Penhelyg Arms (68). Ei graidd yw adeilad hŷn o gyfnod cyn map 1841: dim ond tai pysgotwyr, efallai. Y mae yn awr yn dri llawr ac wedi'i rendro, ag estyniad diweddarach ar yr ochr chwith.
- 5.3.5 Mae Map y Degwm yn dangos adeiladau hŷn ar ochr dde'r bae, hefyd: tai sengl, deulawr dirodres a phlaen, debyg (76). Ac eithrio un adeilad ag wyneb carreg (77) mae adeiladau eraill Penhelyg wedi'u rendro. Mae rhes o dai llawn cymeriad sy'n esgyn i fyny rhiw Nantiesyn (80, 81). Tai deulawr ag ambell i ffenestr dormer yw'r rhain. Mae llawer wedi cadw eu ffenestri codi, a'r tai yn y pen uchaf (rhai hwyrach debyg) eu ffenestri bae. Ar waelod y rhiw mae nodwedd gron yn y ffordd, sydd yn ôl pob tebyg yn rhan o'r hen ddyfrffos a luniodd y dyffryn a'r bae, ond sydd wedi'i guddio o dan ddaear mewn ceuffos, gan fwyaf, erbyn hyn.
- 5.3.6 Rownd y gornel mae rhes blaenach (79). Mae'r rhain wedi'u chwipio ond y mae'r mwyafrif wedi'u paentio â lliwiau gwelwon bywiog yn awr.



22 Rhes Penhelyg



23 Nantiesyn, Penhelyg

- 5.3.7 Ar y llethr ceir sawl tŷ sengl. Dangosir Plas y Coed (83) yn ficerdy ar fap AO 1900. Nid yw Plas Penhelyg (82) i'w weld o fannau cyhoeddus ond fe'i hadeiladwyd ddechrau'r 20^{fed} ganrif ac yn o ddiweddar fe'i defnyddid yn westy, cyn dod yn dŷ preifat unwaith eto. Mae ei goetsiws blaenorol yn dŷ ar wahân.
- 5.3.8 Natur lawen adeiladau Penhelyg (â lliwiau gwelwion ac amrywiol nodweddion fel ffenestri bae a dormer), ynghyd â'r gefnlen las wedi'i hatalnodi ag adeiladau sengl o gymeriadau amrywiol sy'n rhoi i Benhelyg ei gymeriad.
- 5.3.9 **Ardal Cymeriad 2** (Sea View Terrace East) yw rhan ganol y rhes glan môr, yn ymestyn o Benhelyg i gyffwrdd ymyl canol traddodiadol y pentref. Mae'r adeiladau ar raddfa lai, gan fwyaf, â rhesi byrrach a llai o adeiladau tri llawr. Mae'r promenâd yn dod i ben am beth hyd yn y rhan hon.
- 5.3.10 Mewn gwrthgyferbyniad â'r pen gorllewinol, mae adeiladau hŷn ar ochr glan môr y ffordd. Yr adeilad cyntaf ar y chwith (gan deithio tua'r gorllewin) yw dau dŷ pâr (67) â ffenestri dormer. Yn nesaf mae Hen Neuadd yr Eglwys (66) sydd â chymeriad Celf a Chrefft â'i waliau blaenfain. Ychydig ymhellach ymlaen mae rhes o dri (64). Mae ei waliau chwipiedig wedi'u staenio'n wael, a'r ffenestri dormer wedi'u hail-wynebu'n fras, ac o ganlyniad mae cymeriad yr adeilad 19^{eg} ganrif hwn wedi'i golli, ar hyn o bryd.
- 5.3.11 Ar yr ochr draw mae gorsaf flaenorol y bad achub (63). Dywedir y'i hadeiladwyd ym 1886 ac y gwellhawyd y llithrfa ym 1903, cyn ei chau ym 1931, ond ei hailagor ym 1963 cyn ei disodli yn y 1990au. Mae i'r adeilad ffrâm bren i'w dalcen a rhes o ffenestri adeiniog aml-gwarelog ledled y talcen ar y llawr cyntaf. Nid yw'r llawr gwaelod namyn garej.³
- 5.3.12 Ar lan y môr mewn man ynysig mae adeilad bach unllawr (59), dyddiedig 1837. Mae'n debyg mai dyma'r orsaf bad achub gyntaf. Mae grŵp o adeiladau ymhellach i lawr. Mae'r ddau cyntaf yn unllawr hefyd, ac o natur syml (50-51). Maent o'r 19eg ganrif, debyg, ac efallai y'u defnyddiwyd gan bysgotwyr. Yn nesaf atynt mae tŷ gwrthgyferbyniol, mwy mawreddog, tair celfach, dau lawr (Plas Dyfi, 49), uwch o lawer. Ar y pen mae'r Sefydliad Llenyddol. Mae'n adeilad cynnar (i'w weld ar Fap Degwm 1841), a dywedir y bu'n dŷ ymdrochi yn wreiddiol, ac yn fan cyfarfod ar gyfer y Brodyr Plymouth. Fe'i sefydlodd y Sefydliad Llenyddol ei hun yn yr adeilad ym 1882



24 Penhelyg Arms



25 Yr orsaf bad achub flaenorol

³ <https://coflein.gov.uk/en/site/518513/>

ac y mae'n ystafell ddarllen hynafol sy'n aros ar agor i'r cyhoedd: goroesiad prin. Adeiladwyd y Capel Baddon (Bedyddwyr) blaenorol yn nesaf ato ym 1901, ond yn ddiweddarach fe'i cynhwyswyd yn adeilad y sefydliad.⁴

- 5.3.13 Ar yr ochr ogleddol mae adeiladau'r ardal hon yn gasgliad amrywiol iawn o dai. Yn y pen gorllewinol mae parau o dai 3½ llawr (ac islawr yn ychwanegol) â digonedd o addurniadau (ar y baeau, congffeini, amgylchwaith drysau ac ati). Mae rhifau 17/18 Seaview Terrace (anrhestredig (44)) a 19/20 (rhestrwyd Gradd II, â ffenestri crymion nodedig) yn enghreifftiau da iawn. Mae rhif 26 (rhestrwyd Gradd II) yn dŷ sengl cymesur a cheinwych, gyda mynedfa fwaog arbennig o dda â ffenestr linter hanner crwn, addurniadol uwchlaw.
- 5.3.14 Mae tai eraill yn llai cain eu manylion ond yn gymysgedd difyr o ffenestri bae ac wynebau lliwgar, serch hynny. Weithiau ceir adeiladau llai, symlach, dau lawr sydd yn siŵr o fod yn hŷn na'u cymdogion mwy rhwysgafwr.
- 5.3.15 Ymhellach o'r ffordd mae ychydig resi. Mae Mervinia Terrace yn rhes canol y 19^{eg} ganrif restredig Gradd II o bedwar bwthyn syml iawn wedi'u rendro, yn nodedig am gadw eu nodweddion gwreiddiol. Mae Rhes Brynhyfryd (rhestredig Gradd II hefyd) yn debyg ei maint a'i dyddiad, ond o statws ychydig uwch, â nenlofft ychwanegol a mwy o fanylion pensaernïol ogyrch y drysau. Yn union uwchlaw iddi mae rhes anrhestredig, blaenach o lawer (54).
- 5.3.16 Ychydig o addolfeydd sydd yn yr Ardal Cymeriad. Adeiladwyd Eglwys Sant Pedr ym 1882. Mae'r adeilad rhestredig Gradd II yn gwrthgyferbynnu â chymeriad gweddill y pentref, gan fod o gymeriad gothig, â ffenestri pigfain uchel a waliau o garreg frown welw, a'r cerrig wedi'u gosod â phwyslais llorweddol cryf sy'n ei gwneud yn wahanol ei gwedd i eglwys blwyf draddodiadol Seisnig. Y tu ôl, bron wedi'i guddio y tu cefn i rai o'r tai, mae Capel y Tabernacl (rhestredig Gradd II), a adeiladwyd ym 1864. Eir iddo i fyny staer serth, ac y mae iddo wedd draddodiadol â waliau wedi'u rendro ac agorfeydd mawrion, pen bwaog. Mae wedi'i addasu'n fflatiau, yn gymharol sensitif. Y drydedd eglwys yw'r Eglwys Bresbyteraidd Cymru Saesneg. Mae'r golwg arni'n unol â chymeriad gweledol chwareus y pentref, â waliau wedi'u rendro a'u paentio'n felyn. Fe'i hadeiladwyd ym 1893 ac y mae ei nodweddion yn yr un ysbryd â'i lliw, â nodweddion o ffurf



26 Clogwyn yn Ardal Cymeriad Seaview Terrace, Ardal Cymeriad â'r gorsaf bad achub cyntaf ar y lan yn y cefndir



27 Plas Dyfi â thŷ gwrthgyferbyniol, llai y drws nesaf

⁴ <https://coflein.gov.uk/en/site/8612/>

syml sy'n cynnwys ffenestr garreg fawr, clochdy a pharapet â manylion plastr grisiog oddi isod.

- 5.3.17 **Ardal Cymeriad 3** (Rhiw Balkan a Hopeland Road). Mae i'r ardal hon dai gweddol fawrion o ddyluniadau unigol, mewn gerddi helaeth.
- 5.3.18 Mae Rhiw Balkan yn ffordd hŷn, i'w gweld yn eglur ar Fap Degwm 1841 a byddai wedi cysylltu'r pentref â chymunedau'r brynau y tu cefn. Efallai mai hon oedd y ffordd wreiddiol i mewn i'r pentref cyn adeiladu'r ffordd glan môr lwyddiannus gyntaf. Mae Bryn Dyfi'n dŷ ar y ffordd hon sy'n ymddangos ar fap 1841, ynghyd â'i goetsiws.
- 5.3.19 Cynlluniwyd Hopeland Road yn ddatblygiad masnachol tua 1900, gellid tybio. Mae'n ymddolennu'n ffurf "U" oddi ar Riw Balkan. Adeiladwyd tua naw tŷ sengl arno'r pryd hwnnw, ynghyd â dau bâr mawr ar Stryd yr Eglwys. Efallai mai nodwedd fwyaf trawiadol y datblygiad hwn yw'r waliau ffiniol ar fin y ffordd. Gwnaed y rhain o ysgyrion carreg tenau iawn. Mae'r tai oll wedi'u rendro, ac a digonedd o wydr i wneud y gorau o'r goleuni a'r golygfeydd. Mae ffurf y gwydro'n amrywio, ac yn cynnwys ffenestri codi tair rhan, ystafelloedd haf / gwydr, a ffenestri adeiniog a bae mawrion. Mae'r ffenestri gwreiddiol oll yn gymalog, â bariau gwydro mewn amryw batrymau. Mae'r coed a'r plannu yn y gerddi yn rhan hanfodol o gymeriad yr ardal hon.
- 5.3.20 Adeiladwyd y grŵp o dai ym mhen uchaf Rhiw Balkan ar yr un adeg, ond mae'r adeiladau ychydig yn llai rhodresgar: â ffenestri llai, er enghraifft. Eto, mae'r waliau ffiniol anarferol i'w gweld: mae gan Farcroft byst giât diddorol neilltuol. Mae sawl adeilad mwy cyfoes yn yr ardal hon.
- 5.3.21 **Ardal Cymeriad 4** yw'r adran fechan sy'n crynhoi ogyrch Sgwâr y Capel. Yn wahanol i weddill y pentref, mae a wnelo'r cymeriad llai â'r lleoliad glan môr ac y mae mwyafrif yr adeiladau o natur swyddogaethol.
- 5.3.22 Yng nghanol ardal Sgwâr y Capel mae ynys o adeiladau (18). Yn y canol ceir y Neuadd Ymerodraethol. Adeiladwyd hwn yn gapel Methodistiaid Calfinaidd tua 1828 yn ôl cynllun y Parch. Richard Humphreys, Dyffryn. Tybid y'i newidiwyd yn neuadd adloniant tua 1864. Mae'r adeilad wedi'i rendro â cherrig cornel a cherrig diddosi tros y ffenestri pen sgwâr anarferol. Y mae'n siop bellach. Ar yr ochr draw ceir adeilad main, llawn cymeriad â ffenestri oriel llawr cyntaf ac ail, ac wyneb siop pren paentiedig traddodiadol.



28 Llwyn Onn ar Hopeland Road



28 Yn edrych i lawr Rhiw Balkan, â Bryntegwel

- 5.3.23 Gyferbyn mae rhes o adeiladau tri llawr (19) – yn rhannol yn frics wedi'u paentio, yn rhannol wedi'u rendro, ond wedi cadw ffenestri codi. Mae rhifau 8-9 Copperhill Street (20) yn llawer llai uchel na'r tai deulawr eraill ymhellach i fyny'r stryd, gan arwyddo posibilrwydd eu bod yn hŷn. Mae talcen yr adeilad ar yr ochr dde (20) â gwaith cerrig noeth, gan ddangos golwg wreiddiol yr wyneb, debyg. Mae sêl blwm risiog ar y wal hon uwch to rhifau 8-9. Mae rhan fwyaf adeiladau'r rhan hon o'r stryd ag waliau geirwon wedi'u rendro, ond â rendr llyfnach ogyrch y ffenestri mewn lliw gwrthgyferbyniol. Mae grŵp ychwanegol o dri thŷ is (rhifau 12-14 (22)) eto'n llai uchel. Mae llechen ar y wal ag arni 'Built by Anne Owen, Widow, 1733'.
- 5.3.24 Yn union y tu ôl i'r grŵp hwn mae rhes arall, sef Rhes Evans (rhestredig Gradd II). Ar lechen mae'r ysgrif 'Built by Edward Price 1827'. Mae gan ddau o'r tai ffenestri llithro llorweddol.
- 5.3.25 Y tu ôl i'r adeiladau blaen ceir Railway Terrace (24) hefyd. O'r 19^{eg} ganrif gellid tybio y'i hadeiladwyd ar gyfer gweithwyr rheilffordd, a awgrymai tua'r 1860au, o bosibl. Mae Bridgend Cottages (25) yn union nesaf at y rheilffordd ac y mae'n debyg eu bod yn gysylltiedig â hi.
- 5.3.26 Mae'r adeiladau ar ochr arall y ffordd o gymeriad tebyg, ond yn gyffredinol un ai'n dri llawr neu â llawr ychwanegol a ddarparwyd hwyrach ymlaen â ffenestri dormer. Mae rhes ychwanegol yn swatio y tu cefn, a'i mynedfa yn Sgwâr y Capel. Nid oes gan y rhesi hyn fynediad i'r ffordd, ac y maent yn nodwedd neilltuol yr ardal.
- 5.3.27 Yng nghornel Sgwâr y Capel ceir Capel Bethel (30). Fe'i hadeiladwyd yn gapel Wesle ym 1829 yn wreiddiol, ac fe'i hailadeiladwyd ym 1868.
- 5.3.28 Mae gan Stryd Newydd res liwgar o dai tri llawr (31) nodedig am gadw eu gwedd wreiddiol neu gynnwys, gyda ffenestri codi a fframiau drysau. Yn agosach at lan y môr mae adeilad llai (32), isel iawn, sydd hefyd wedi cadw ei gymeriad gwreiddiol ac wyneb siop cynnar.



29 Rhes Glan Dyfi





29 14-15 Rhes Glan Dyfi – ffenestri bae codi bwaog anarferol iawn


- 5.3.29 Mae golwg Stryd yr Eglwys yn llawer mwy amrywiol, ag adeiladau o wahanol uchder. Pwysleisir yr amrywiadau hyn rhagor gan raddiant a thro'r ffordd. Mae wal gefn a giât Eglwys Sant Pedr yn nodwedd neilltuol.
- 5.3.30 **Ardal Cymeriad 5** yw Rhes Glan Dyfi. Mae'r llain hon wedi'i datblygu o tua chanol y 19^{eg} ganrif, a dengys map AO 1900 res gyfan o adeiladau gyda dim ond ychydig fylchau cyfyng. Fodd bynnag, mae'r hyn sydd yn ymddangos yn awr, ar yr olwg gyntaf, fel grŵp eithaf cydgordioli o adeiladau tebyg yn amrywiol iawn eu hansawdd, eu hoed a'u math, mewn gwirionedd. Dengys map 1900 a ffotograffau hanesyddol rai adeiladau llai / is yn ymyl y canol. Mae'r rhain wedi'u disodli ar ryw adeg anhysbys yn yr 20^{fed} ganrif gan resi uwch. Mae'r ffotograff yn dangos ffenestri symlach, hefyd, gan awgrymu bod llawer o'r ffenestri bae yn hwyrach.
- 5.3.31 Mae cymeriad Glan Dyfi heddiw'n un o resi tri llawr yn bennaf, ond yn aml â nenlofftydd ac isloriau ychwanegol. Mae'r ffenestri bae wedi cynyddu o ran maint ac amlygrwydd gyda'r blynyddoedd. Mae ffenestri bae yn nodwedd bwysig, ac y mae gan lawer o'r baeau fanylion pensaernïol megis colofnau neu baneli rendr. Mae gan lawer o adeiladau fanylion ysgwyddol yn eu bargodion. Mae ymylwaith drysau, mynedfeydd grisiog a rheiliau'n gyffredin ar y llawr gwaelod. Gwelir ymylwaith plastr ogyrch llawer o ffenestri ac yn diffinio pennau'r blociau cynharach.
- 5.3.32 Wrth i'r ffordd droi rownd y gornel mae tir o well ansawdd, ac adeiladau unigol gan gynnwys Westhaven (6), Medical Hall a Chapel yr Annibynwyr.
- 5.3.33 Mae'r cei gyferbyn. Mae'r rhan fwyaf (onid y cyfan) o'i adeiladau'n rhai cyfoes, ond erys ôl troed yr hen gei a adeiladwyd tua 1882 ar gyfer y fasnach longau. Fe'i hadeiladwyd gan Reilffordd y Cambrian, a chynhwysai wal fôr, cilffyrdd a warysau.





29 Capel yr Annibynwyr











5.4 Deunyddiau a Manylion

- 5.4.1 Mae gan fwyafrif adeiladau'r ardal gadwraeth rendr paentiedig ar wyneb eu waliau. Mae graen y gwaith rendr hŷn yn amrywio: peth yn gymharol lyfn, ond gwnaed defnydd eang o chwipiad garw ledled yr ardal. Gwelir chwipiad graean o'r chwaeth Edwardaidd, hefyd, ond yn bennaf ar adeiladau a godwyd wedi 1900. Mae'r adeiladau hyn wedi'u paentio, gan fwyaf, yn awr, gan edrych yn debyg i'r chwipiad garw mwy traddodiadol, ag amrywiaeth ehangach o gerrig sydd, yn gyffredinol, yn fwy. Byddai rhai o'r adeiladau hŷn â chwipiad a roddwyd â llyfnwr pren, ac a drwsiwyd / glytiwyd gydag amser. Mae'r amrywio hwn ar yr arwyneb yn fwy fyth pan fo ar garreg. Mae hyn yn wahanol i arwynebau llyfnion iawn chwipio cyfoes.
- 5.4.2 Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau hyn â manylion ychwanegol a wneir o rendr, er engraifft yn dynwared conglfaen a fframio'r agoriadau.
- 5.4.3 Mae lliw'n bwysig iawn yn yr ardal gadwraeth heddiw. Mae'r amrywiaeth eang o arlliwiau cyffredinol pastel neu tawel yn bywiogi'r stryd wedd ac yn ychwanegu at ymdeimlad hwyliog y cyrchfan glan môr. Paentir ychydig adeiladau â lliwiau mwy llachar y bernir eu bod, fel arfer, yn llai cydnaws ag adeiladau traddodiadol ac yn denu gormod o sylw, efallai: lle bo lliw yn atal rhes tai rhag cael ei hamgyffred yn gyfanwaith, er enghraifft.
- 5.4.4 Mae'n debyg yr adeiledd y mwyafrif o'r adeiladau hŷn o garreg, ond mae'n bosibl nas gadawyd yn hollol noeth ym mhob achos. Mae'n debyg y gallai mortar fod wedi'i daenu ar wyneb y garreg ac y gwyngelchid y waliau.
- 5.4.5 Mae'r ychydig adeiladau hŷn ag elfennau o waith carreg noeth yn dangos ei fod yn haenau tenau o garreg sgist a osodwyd yn llorweddol. Mae dau adeilad y tu allan i'r ardal bresennol ychydig y tu draw i Benhelyg a adeiledir yn llwyr yn y dull hwn. Cyn bod plwm ar gael yn rhwydd, byddai llechi neu haenau tenau o garreg wedi estyn allan o waelod y simneiau neu'r gwaith cysylltiol ag adeiladau cyfagos er mwyn diogelu peth rhag y tywydd.
- 5.4.6 Mae gan rai o'r adeiladau Fictoraidd o statws uwch feini nadd o lefydd pellach.
- 5.4.7 Codwyd ychydig adeiladau o frics, ond ac eithrio wyneb un tŷ, mae'r gweddill wedi'u paentio.



35 Drws tŷ yn Seaview Terrace



36 Gwaith coed a phlastr Stryd Newydd

- 5.4.8 Mae'r mwyafrif o'r adeiladau sy'n wynebu'r môr ag wynebau paentiedig. Gwelir llawer o ffenestri bae sy'n gwneud y gorau o'r golygfeydd, ond yn rhoi rhythm, hefyd, i wynebau'r rhestai, sydd yn aml yn hir. Gwelir gwaith plastr addurniadol ar y baeau hyn yn aml.
- 5.4.9 Llechi sydd ar y toi. Mae gan yr adeiladau mwy cyffredin doi syml ar oleddf, ond mae gan yr adeiladau 'cyrchfan' mwy ysblennydd ffurfiau to a addurnir â ffenestri dormer.
- 5.4.10 Buasai mwyafrif y ffenestri yn rhai codi fertigol, ac arhosant ar lawer o adeiladau. Mae patrwm y gwydro yn amrywio'n fawr yn ôl chwaeth yr adeilad. Ar Res Evans erys ychydig ffenestri llithro llorweddol. Gwelir gwydr mewn plwm o bryd i'w gilydd, yn nodwedd ar wynebau siopau, er enghraifft.
- 5.4.11 Yn aml y mae gan ddrysau (yn enwedig rhai'r rhesi glan môr a'r rhai mwy) waith addurniadol o'u cwmpas, gan ddefnyddio elfennau clasurol, fel colofnau, yn aml. Fel arfer roedd drysau'r adeiladau mwy addurniadol â phaneli, ac yn aml rhoddwyd gwydr yn y rhannau uchaf. Mae'n debyg mai drysau o estyll fertigol oedd gan yr adeiladau symlach. Mae'r mwyafrif o'r rhain wedi'u disodli, bellach, oherwydd bod cael peth gwydr yn ddymunol.
- 5.4.12 Mae sawl wyneb siop da o ansawdd uchel. Y mwyaf nodedig yw Medical Hall (rhestredig Gradd II), ond mae eraill yn cynnwys gwaith coed o ansawdd da, fel pyst cornel wedi'u troi, er enghraifft.

5.5 Ffiniau


- 5.5.1 Trinnir ffiniau'n wahanol ledled yr ardal. Ar hyd rhes glan y môr, lle mae adeilad wedi'i osod yn ôl, y traddodiad fyddai cael wal isel, yn aml wedi'i rendro, a rheiliau haearn bwrw addurniadol ar ei phen. Mae cryn nifer o'r rhain wedi goroesi.
- 5.5.2 Tu hwnt i lan y môr mae wynebau'r adeiladau hŷn yn union ar y ffyrdd, ond mae enghreifftiau o waliau ffiniol uchel a neilltuol eraill a godwyd o haenau cymharol denau o gerrig sgist wedi'u gosod yn llorweddol.
- 5.5.3 Mae'r datblygu a fu yn niwedd y 19^{eg} ganrif yn ardal Hopeland Road yn adlewyrchu nodweddion gwerinol y waliau traddodiadol ac yn ychwanegu at eu swyn a'u golwg anarferol trwy ddefnyddio tameidiau teneuach o garreg, gan ychwanegu carreg gopa'n aml lle gosodir cerrig yn fertigol a chan gynnwys pyst giatiau o amryw ddyluniadau.



37 Wyneb addurniadol y Dovey Inn



38 Wal ffin garreg



Adeiladau Rhestredig
1:5000 ar A4

6.0 Asedau Hanesyddol

6.1 Asedau Hanesyddol Dynodedig

Ceir yr asedau hanesyddol dynodedig canlynol (adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig) yn yr Ardal Gadwraeth:

6.1.1 Henebion Cofrestredig

Amh.

6.1.2 Adeiladau Rhestredig

- 14913 - 5 Stryd Newydd (II)
- 14260 - 9 Stryd Newydd (II)
- 14300 - 8 Stryd Newydd (II)
- 14257 - 10 Stryd Newydd (II)
- 5526 - Bryhyfryd / 1 Sea View Terrace (II)
- 5527 - Bryhyfryd / 2 Sea View Terrace (II)
- 14957 - Bryhyfryd / 3 Sea View Terrace (II)
- 14958 - Bryhyfryd / 4 Sea View Terrace (II)
- 14915 - Clifton (II)
- 14313 - Tŷ sownd wrth The Gallery (II)
- 4639 - Leadenhall (II)
- 14914 - Maclona (II)
- 14912 - Y Neuadd Feddygol (II)
- 14959 - Mervinia (II)
- 14962 - Rhes Mervinia (II)
- 4640 - Minafon (II)
- 14907 - 1 Rhes Evans (Ochr De-dd), Copperhill Street (II)
- 14908 - 2 Rhes Evans (Ochr De-dd), Copperhill Street (II)
- 14909 - 3 Rhes Evans (Ochr De-dd), Copperhill Street (II)
- 14916 - 4 Rhes Evans (Ochr De-dd), Copperhill Street (II)
- 14917 - 5 Rhes Evans (Ochr De-dd), Copperhill Street (II)
- 14911 - 6 Rhes Evans (Ochr De-dd), Copperhill Street (II)
- 4636 - 14 Rhes Glan Dyfi (Ochr ogleddol) (II)
- 4635 - 15 Rhes Glan Dyfi (Ochr ogleddol) (II)
- 4641 - 26 Sea View Terrace (Ochr ogleddol) (II)
- 14963 - Porthdy Penhelyg (II)
- 14291 - Esgynfa Bwa Mynedfa'r De, Wal a Rheiliau Mynwent Eglwys Sant Pedr (II)
- 14302 - Eglwys Sant Pedr (II)
- 5255 - Capel y Tabernacl (II)
- 14960 - Tegfan (II)



40 Eglwys Sant Pedr



41 19-20 Seaview Terrace

- 14256 – *The Gallery (II)*
- 14961 – *Tŷ Fferi (II)*

6.1.3 Dynodiadau Ychwanegol Dichonol:

Nid awgrymir argymell cynnwys llawer o aderiladau ychwanegol ar y rhestr genedlaethol, ar hyn o bryd, ond gallai hyn newid pe ceid rhagor o wybodaeth sy'n effeithio ar arwyddocâd adeiladau. Mae'n werth ystyried y canlynol, fodd bynnag, yn rhinwedd goroesiad nodweddion, pwysigrwydd golygfeydd ac agosrwydd at adeiladau rhestredig eraill:

- *Westhaven (17 Rhes Glan Dyfi)*

6.2 Asedau Hanesyddol Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig

Clustnodwyd yr asedau hanesyddol annynodedig canlynol fel rhai o ddiddordeb lleol arbennig sy'n cyfrannu at gymeriad yr ardal gadwraeth. Nodir y rhain ar y cynlluniau Ardal Cymeriad):

- 1 – *Tryfel, Gwendon a Beach House (Rhes Bodfor)*
- 2 – 1-7 Rhes Bodfor (ni chynhwysir rhif 8, gan y collwyd y cymeriad)
- 3 – 9-11 Rhes Bodfor
- 4 – 1-13 Rhes Glan Dyfi
- 5 – 16 Rhes Glan Dyfi
- 6 – 17 Rhes Glan Dyfi (*Westhaven*)
- 7 – 19 Rhes Glan Dyfi
- 8 – *Capel yr Annibynwyr*
- 9 – 1-6 Sea View Terrace
- 10 – 1–2 Copperhill Street
- 11 – 1-4 Bryn Mwyn
- 12 – 12-12a Bryn Mwyn
- 13 – 9 Bryn Mwyn
- 14 – 5 Bryn Mwyn
- 15 – 7 Bryn Mwyn
- 16 – 2 – 4 (Rhes uwchlaw Bryn Mwyn)
- 17 – 1 (Rhes uwchlaw Bryn Mwyn)
- 18 – *Imperial Hall a 16-17 Sgwâr y Capel*
- 19 – 3-7 Copperhill Street
- 20 – 8-9 Copperhill Street
- 21 – 10-11 Copperhill Street



42 Medical Hall



43 Imperial Hall

- 22 – 12-14 Copperhill Street
- 23 – 15-17a Copperhill Street
- 24 – 1-8 Railway Terrace
- 25 – 1-2 Bridgend Cottages
- 26 – 47-50 Copperhill Street
- 27 – 51-53 Copperhill Street
- 28 – 1-2 Sgwâr y Capel
- 29 – 3-8 Sgwâr y Capel
- 30 – Capel Bethel ac 11 Sgwâr y Capel
- 31 – 5-12 Stryd Newydd
- 32 – 13-14 Stryd Newydd
- 33 – 1-4 Stryd Newydd
- 34 – 7 Seaview Terrace a'r Dovey Inn
- 35 – 9-10 Seaview Terrace
- 36 – 11-12 Seaview Terrace
- 37 – 13 Seaview Terrace
- 38 – Britannia Inn 14-14a Seaview Terrace
- 39 – 15-16 Seaview Terrace
- 40 – 17-18 Seaview Terrace
- 41 – 21 Seaview Terrace (Xanthus)
- 42 – 22-23 Seaview Terrace
- 43 – 24-25 Seaview Terrace
- 44 – 27-29 Seaview Terrace
- 45 – Eglwys Bresbyteraidd Cymru Saesneg (30 Seaview Terrace)
- 46 – 31-32 Seaview Terrace
- 47 – Literary Institute
- 48 – Dovey Cottage, Bath Place
- 49 – Plas Dyfi, 5 Bath Place
- 50 – Gwel-Afon, 6 Bath Place
- 51 – 7 Bath Place
- 52 – Hen Dŷ'r Ysgol / Dovey Studio (Oddi ar Bath Place)
- 54 – 5-8, Bryhyfryd (Oddi a Bath Place)
- 55 – 1-2 Terrace Road
- 56 – 3-4 Terrace Road
- 57 – 5-8 Terrace Road
- 58 – 9 Terrace Road
- 59 – Tabernacle, 10 Terrace Road
- 60 – 1-4 Cliffside
- 61 – Shelter, Terrace Road
- 62 – Yelland, Terrace Road
- 63 – Clwydfa, Terrace Road
- 64 – 20/21 Terrace Road
- 65 – Cartrefle / Marlais / Hafn, Terrace Road
- 66 – Hen Neuadd yr Eglwys, Terrace Road



44 13-14 Stryd Newydd



45 Capel Bethel

- 67 – 22 Porthfa / 23 Bro Gwylan, Terrace Road
- 68 – 25 / 26 Terrace Road / Penhelyg Arms
- 69 – 1-12 Penhelyg Terrace
- 70 – Tanyrallt, Penhelyg *
- 71 – Copper Cottage, Penhelyg *
- 72 – The Cottage, Penhelyg *
- 73 – 19 Plas Merion, Penhelyg *
- 74 – 12-18 Plas Merion, Penhelyg *
- 75 – 10-11 Ffordd Penhelyg
- 76 – 5-9 Ffordd Penhelyg
- 77 – 3(?) Ffordd Penhelyg
- 78 – Brynhelig, 1 Ffordd Penhelyg
- 79 – 30-36 Terrace Road, Penhelyg
- 80 – 1-9 Nantiesyn, Penhelyg
- 81 – 10-14 Nantiesyn, Penhelyg
- 82 – Gwesty Plas Penhelyg
- 83 – Plas y Coed, Penhelyg
- 84 – Plas Prian, Penhelyg
- 85 – Hillside / Clifton, Stryd yr Eglwys
- 86 – Hyfrydale / ?, Stryd yr Eglwys
- 87 – Bryn Eglwys, Stryd yr Eglwys
- 88 – Bryn Dyfi, Rhiw Balkan
- 89 – Brig-y-Don, Hopeland Road
- 90 – Rose Hill, Hopeland Road
- 91 – Rossetti, Hopeland Road
- 92 – Llwyn Onn, Hopeland Road
- 93 – Bryn Eira, Hopeland Road
- 94 – Plas Ucha, Hopeland Road
- 95 – Morwylfa, Hopeland Road
- 96 – Killiegray, Hopeland Road
- 97 – Garreglwyd, Hopeland Road
- 98 – Brynmeddyg, Hopeland Road
- 99 – Haulfryn, Hopeland Road
- 100 – Farcroft, Rhiw Balkan
- 101 – Balkan Hill House, Rhodfa Rhiw Balkan
- 102 – The Firs, Rhodfa Rhiw Balkan
- 103 – Brynderw, Ffordd Garth / Ffordd Argoed
- 104 – Preswylfa, Ffordd Garth / Ffordd Argoed
- 105 – Brynarfor, Ffordd Garth / Ffordd Argoed
- 106 – Argoed, Ffordd Garth / Ffordd Argoed
- 107 – Bryntegwel, Rhiw Balkan
- 108 – The Old Coach House, Rhiw Balkan
- 109 – 20-23 Stryd yr Eglwys
- 110 – 18-19 Stryd yr Eglwys



46 Eglwys Bresbyteraidd Cymru Saesneg



47 30-36 Terrace Road, Penhelyg

- 111 – 23-25 Stryd yr Eglwys
- 112 – 15-17 Stryd yr Eglwys
- 113 – 10-12 Stryd yr Eglwys
- 114 – 1-5 Stryd yr Eglwys (a Rhos Gibraltar y tu cefn)
- 115 – 18-19 Copperhill Street*
- 116 – 20-21 Copperhill Street*
- 117 – 1-4 Copperhill Walk*
- 118 – 22-28 Copperhill Street*
- 119 – 41-45 Copperhill Street*
- 120 – 1-4 Tai Newyddion*
- 121 – 31-38 - Copperhill Street*
- 122 – 9-10 Tai Newyddion*
- 123 - 5-8 Tai Newyddion*
- 124 - Frondeg, Tai Newyddion*

Lle nodir adeiladau â seren (*), maent y tu allan i'r ffin bresennol ond wedi'u hargymhell ar gyfer eu cynnwys yn y dyfodol ac yn cyfrannu'n adeiladol at osodiad yr ardal bresennol.


Yn Aberdyfi mae'n anodd diffinio nifer fechan o asedau annynodedig, gan y codwyd mwyafrif adeiladau craidd yr anheddiad yn y cyfnodau Fictoraidd ac Edwardaidd, ac y mae bron pob un yn cyfrannu at ei gymeriad neilltuol ac yn rhan o olygfeydd a fistâu allweddol. Mae hyn, felly, yn cyfrannu at ran o'r achos dros gamau diogelu eraill ledled yr ardal gadwraeth. Gweler Adran 2.0 yr adroddiad hwn.

6.3 Cofrestr Adeiladau Traddodiadol

- 6.3.1 Dylid hefyd ystyried 'Cofrestr Adeiladau Traddodiadol' yr Awdurdod. Gan fod y rhestr hon yn cael ei hadolygu trwy'r amser, ni fyddai'n ymarferol ei chynnwys yn y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth hwn. Cysylltwch â'r Awdurdod os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r gofrestr.'



48 Plas Ucha



7.0 Hanes Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)

- 7.1.1 Ni wyddys dichonoldeb archeolegol safleoedd o fewn yr ardal gadwraeth yn benodol. Er bod tystiolaeth gref dros weithgaredd cynhanesyddol yn y cyffiniau, mae'r ardal gadwraeth yn fwy cysylltiedig â chanrifoedd diweddarach.
- 7.1.2 Ni wyddys, serch hynny, fawr ddim am y pentref cyn iddo ddod yn gyrchfan ymwelwyr, a byddai unrhyw gofnodi adeiladau hŷn, yn ardal Sgwâr y Capel a Phenhelyg, er enghraifft, yn gwella'r amgylffrediad hwn yn fawr.

8.0 Asedau Dynodedig Eraill

8.1 Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

- 8.1.1 Daw Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Dyfed i fyny at ymyl yr ardal gadwraeth. Gw. Ffig. 49.

8.2 Gorchmynion Cadw Coed

- 8.2.1 Nid oes ond un Gorchymyn Cadw Coed yn yr Ardal Gadwraeth ar hyn o bryd:
- Gorchymyn Ardal Gwynedd07 – Tir i'r Gorllewin o Argoed, Aberdyfi.

8.3 Tirwedd Hanesyddol Ddynodedig

- 8.3.1 Nid yw'r pentref mewn Tirwedd Hanesyddol Ddynodedig ar hyn o bryd.

8.4 Dynodiadau Eraill

- 8.4.1 Mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Dyfi yn cynnwys ardal nesaf at ymyl arfordirol yr ardal gadwraeth. Crëir Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol i ddiogelu cynefinoedd bywyd gwylt pwysig, a darparu adnodd ymchwil gwyddonol a hamdden ar yr un pryd.
- 8.4.2 Mae'r dynodiadau canlynol yn cynnwys y glannau i'r de o'r ardal gadwraeth, hefyd:



50 Adeiladau hŷn dichonol o fewn ardal Sgwâr y Capel



51 Aberdyfi o'r twyni tywod

- Safle Ramsar Cors Fochno a Dyfi
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) Aber Dyfi
- Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau
- Gwarchodfa Biosffer Dyfi (Parth Creiddiol)

9.0 Bioamrywiaeth

9.1 Coed a Phlannu

- 9.1.1 Gw. 8.3 am Orchmynion Cadw Coed.
- 9.1.2 Gw. 4.3 am ddisgrifiad o goed/coetiroedd allweddol o fewn yr ardal gadwraeth sy'n cyfrannu at ei chymeriad arbennig.
- 9.1.3 Mae gwefan y Cyngor Cymuned yn cyfeirio at raglen adnabod rhywogaethau ar Ben y Bryn ym 2014.

9.2 Rhywogaethau Gwarchodedig

- 9.2.1 Mae aber Dyfi o bwys rhyngwladol oherwydd ei fywyd gwylt, ac y mae llawer dynodiad (a restrir uchod, gan fwyaf) er mwyn diogelu ei ddiddordeb arbennig.
- 9.2.2 Er bod llawer o'r rhywogaethau hyn yn ddyfrol, gallai eraill ddefnyddio'r tir ogyrch. Cymharol ychydig wybodaeth sydd ynglŷn â'r pentref ei hun: cyfeiriad gwefan y Cyngor Cymuned at welch y pysgod a barcutiaid. Mae gwarchodfa gyfagos y CFGA yn crybwyll bodaod, bodaod tinwyn, cudyllod bach a hebogiaid tramor, hefyd.
- 9.2.3 Mae'r twyni tywod cyfagos yn gartref i rywogaethau cymharol anarferol, megis genau-goegiaid a nadroedd.



52 Golygfa o Ben y Bryn




53 Golygfa i fyny'r aber



YR AIL RAN: CYNLLUN RHEOLAETH ARDAL GADWRAETH.

1.0 Crynodeb o Ddadansoddiad CGCB



2.0 Deall y Materion

2.1 Cyflwr yr Ardal Gadwraeth

- 2.1.1 Mae Aberdyfi wedi cadw ei gymeriad fel pentref glan môr bach a ddatblygodd o fod yn borthladd, ac yna, wedi dyfodiad y rheilffordd, yn gyrchfan ymwelwyr ple denwyd pobl gan ei osodiad eithriadol yn y dirwedd, ansawdd y goleuni a golygfeydd trawiadol.
- 2.1.2 Mae'r pentref yn hynod ddymunol, sy'n dod â phwysau o ran datblygu ac o ran newid yr adeiladau presennol. Ar hyn o bryd mae nifer sylweddol o fanylion ei ffurf yn nechrau'r 20^{fed} ganrif yn dal i fodoli.
- 2.1.3 Mae'r mwyafrif o adeiladau wedi'u preswyllo neu mewn defnydd buddiol.
- 2.1.4 Mae rhai effeithiau negyddol ar ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Disodli gwaith coed hanesyddol, megis ffenestri, drysau ac wynebaw siopau, gan rai cyfoes, uPVC fel arfer.
 - Colli nodweddion sy'n rhan o rythm rhesi tai neu gymesuredd parau.
 - Datblygiadau neu estyniadau anaddas neu o ansawdd gwael.
 - Ail-rendro adeiladau hŷn mewn modd anaddas.
 - Diffyg gofod allanol ogyrch rhai adeiladau, gan arwain at finiau'n ymwithio'n weledol i'r strydwedd, er enghraifft.
- 2.1.5 Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:
- Rhesi glan môr lle mae manylion pensaernïol wedi'u dileu (gwaith o amgylch drysau a ffenestri, er enghraifft). Mae hyn amlycaf yn rhesi Bodfor a Glan Dyfi.
 - Defnydd eang ffenestri uPVC ar dai rhes llai Copperhill Street. Gan eu bod o natur symlach iawn, mae'r newid hwn i'w weld yn ymwithiol iawn.
 - Ffenestri cyfoes ac ail-rendro adenydd y Sefydliad Llenyddol. Mae cymharu â hen ffotograffau yn dangos bod ei gymeriad gwreiddiol wedi'i golli, gan fwyaf.



54 Adeiladau Rhes Glan Dyfi ag ychydig fanylion / nodweddion yn weddill



55 Effaith rendr cyfoes ar olwg unedau canol 5-8 Rhes Brynhyfryd

- Rendr ansoddedig bras a ffenestri newydd yr hen ysgol/ysgody agos gyferbyn â'r Sefydliad Llenyddol.
- Ffenestri dormer cyfoes, elfennol y rhes fer agos gyferbyn â'r Hen Orsaf Bad Achub. Gwaethygir yr olwg gan y rendr graean sydd wedi'i staenio.
- Rendr cyfoes unedau canol 5-8 Rhes Brynhyfryd (mewn gwrthgyferbyniad â'r rendr hŷn ar y pen).

2.2 Adeiladau mewn Perygl

- 2.2.1 Gan fod y mwyafrif o adeiladau yn cael eu preswyllo/defnyddio ar hyn o bryd, a bod yr ardal yn hynod ddymunadwy, ni nodwyd fod unrhyw adeilad unigol mewn perygl sylweddol. Mae rhai adeiladau, fodd bynnag, yn anos eu defnyddio'n addas pe dônt yn segur: eglwysi a chapeli yw'r enghraifft amlycaf. Dylid eu cynorthwyo lle bo angen, felly, er mwyn aros ar agor.
- 2.2.2 Ar hyn o bryd, onid yw adeilad wedi'i restru neu'n destun cyfarwyddyd erthygl 4, mae'n hynod agored i newid anaddas.

3.0 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB

- 3.1.1 Cynhaliwyd dadansoddiad CGCB ar gyfer Ardal Gadwraeth Aberdyfi. Defnyddir hwn i glustnodi rhai o'r problemau, ond hefyd rhai o gyfleoedd a chryfderau cynhenid yr ardal gadwraeth. Mae hwn wedyn yn sail i greu'r cynigion rheoli cadarnhaol sydd yn dilyn.
- 3.1.2 Dengys y dadansoddiad CGCB sawl pen gweithredu allweddol i adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Cynorthwyo ailosod manylion adeiladu traddodiadol a gwella cynaliadwy ar gyfer gwell perfformiad amgylcheddol.
 - Sicrhau diogelu manylion gwreiddiol arwyddocaol yr Ardal Gadwraeth trwy weithredu gwell rheolau adeiladu (cyfarwyddiadau Erthygl 4, fe ddichon).



56 Golwg elfennol iawn adenydd y Sefydliad Llenyddol presennol



57 Y Sefydliad Llenyddol – mewn gwrthgyferbyniad â'i olwg blaenorol, mewn llun di-dyddiad. Yr oedd gan yr elfen unllawr ffrâm bren ac yr oedd gan y ddwy ran ffenestri aml-gwarelog traddodiadol.

- Gwella'r fioamrywiaeth o fewn y pentref a'r cyffiniau.
- Annog cynnal arolwg rhywogaethau prin a gwarchodedig yn ardal y pentref.

3.1.3 Mae'r CGCB yn clustnodi sawl gwendid a bygythiad, a glustnodir yn bwyntiau gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ceisio ymgysylltu adeiladol er mwyn dadwneud newidiadau difrodol i adeiladau a nodweddion allweddol.
- Sicrhau diogelu mannau gleision a golygfeydd allweddol trwy ymgysylltu lleol ac wrth ystyried ceisiadau datblygu.
- Lleihau dibyniaeth ar dwristiaeth dymhorol trwy annog amgylchedd o ansawdd da a gwell cyfleusterau ar gyfer pobl sy'n byw yn yr ardal.
- Cloriannu problemau gofodol ogyrch rhai o'r anheddau llai (rhestai, e.e.), sydd yn aml yn gadael diffyg gofod ar gyfer biniau ac anghenion beunyddiol eraill; a darparu atebion tan reolaeth.
- Darparu arwyddion a gwell mynediad at olygfannau cyhoeddus (Pen y Bryn, er enghraifft) a gwella cyfleusterau megis meinciau, cysgodfannau a byrddau dehongli. Yn y tymor hwy, byddai Pen y Bryn yn well o gael llwyfan band addasach, newydd.
- Dehongli nodweddion hanesyddol y dref: Imperial Hall a'r hen orsafoedd bad achub, er enghraifft.

4.0 Rheolaeth Gadarnhaol

4.1 Newid Ffiniau

4.1.1 Argymhellir ymestyn yr ardal gadwraeth i gynnwys yr ychwanegiadau canlynol:

- Ardal fechan yn y pen dwyreiniol, i gynnwys grŵp bach o adeiladau o ddiwedd y 19^{eg} ganrif ychydig tu hwnt i ymyl dwyreiniol yr ardal gadwraeth bresennol, ar hyd Ffordd



58 Ansawdd elfennol y llwyfan band presennol ar Pen y Bryn



59 Byddai'r dref yn elwa o gael rhagor o wybodaeth am adeiladau hanesyddol fel yr Imperial Hall

Penhelyg. Bydd hyn yn cynnwys Tanyrallt, tŷ sengl tri bae, dau lawr sydd mewn cyflwr da, gwreiddiol, ac yn fynedfa bictwresg i Benhelyg ac Aberdyfi y tu draw. Awgryma hen fapiau AO y gall mai gorsaf heddlu fu hwn, ar un adeg. Mae'n debyg yr ychwanegid yr ardal hon at Ardal Cymeriad Penhelyg.

- Argymhellir, hefyd, ymestyn yr ardal i gynnwys y rhan o Copperhill Street sydd y tu hwnt i'r rheilffordd. Bydd yr ardal gymharol fechan hon yn cynnwys nifer dda o adeiladau'r 19^{eg} ganrif a hepgorwyd gynt, ac yn cynnwys peth yn rhagor o'r llethr sydd i'w weld yng nghefnlen agos golygfeydd o'r dref o'r glannau. Mae'r adeiladau hyn yn rhannu nifer o nodweddion diddordeb arbennig adeiladau eraill yn y dref, a graddfa dda o nodweddion sydd wedi goroesi. Teilynga'r ardal hon ei Hardal Cymeriad ei hun.

- 4.1.2 Nid argymhellir ymestyn yr ardal gadwraeth y tu draw i'r groesfan reilffordd. Er bod nifer fechan o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol, hanesyddol neu gymunedol, mae'r ardal wedi'i gwahanu'n ffisegol ac yn weledol o brif ran y dref gan fryncyn a'r groesfan reilffordd ddyrchafedig. Gallai ei chynnwys wanhau cymeriad yr ardal bresennol.

4.2 Diogelwch Polisi Lleol a Chenedlaethol

- 4.2.1 Ceir cyd-destun fframwaith deddfwriaethol Ardaloedd Cadwraeth yn y ddogfen gyflwyniadol **Cyflwyno a Pholisi Cynllunio**. Rydd y ddogfen hon arweiniad a pholisïau cyffredinol hefyd.
- 4.2.1 Argymhellir cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn Ardal Gadwraeth Aberdyfi. Mae'r pentref wedi cadw llawer o nodweddion hanesyddol ac y mae cyfle i atal rhagor o newid anaddas fel tynnu ymaith ffenestri, gwaith coed a nwyddau dŵr glaw hanesyddol.
- 4.2.2 Fel y nodwyd yn 6.1 Rhan Un, argymhellir ystyried cynnwys Westhaven (17 Rhes Glan Dyfi) ar y rhestr genedlaethol. Onid yw hyn yn bosibl dylid ei warchod trwy gyfarwyddiadau erthygl 4 unigol neu gyffredinol.



60 Argymhellir ymestyn ffin yr ardal gadwraeth i gynnwys ychydig mwy o adeiladau ym Mhenhelyg, i gynnwys Tanyrallt



61 Ar Stryd Copperhill

4.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

4.3.1 Byddai mynd i'r afael â rhai o'r problemau (gweler 2.0) a'r gwendidau a'r bygythiadau i'r Ardal Gadwraeth yn creu potensial i wella ei diddordeb arbennig yn sylweddol. Gellir gwneud hyn drwy bwerau cynllunio neu ganllawiau estynedig.

4.3.2 Byddai gweithredu posibl er gwella Ardal Gadwraeth Aberdyfi yn cynnwys:

- Posiblirwydd o weithredu camau rheoli (cyfarwyddyd erthygl 4) i reoli colli manylion a nodweddion gwaith coed traddodiadol.
- Annog ailosod manylion gwaith coed mwy addas ar adeilad o bwys lleol, yn lle gwaith uPVC cyfoes.

4.3.3 Argymhellir darparu **canllaw dylunio** er mwyn deall ac annog newid addas yn yr ardal gadwraeth. Dylai gynnwys:


- Manylion addas ar ffenestri, drysau a gwaith coed newydd (fel ar wynebau siopau, er enghraifft).
- Gwybodaeth ynghylch deunyddiau a manylu traddodiadol (rendro, er enghraifft).
- Arweiniad ynghylch lliwio adeiladau.
- Graddfa, ffurf, a deunyddiaeth adeiladau ac estyniadau newydd.

4.3.4 Gan ddefnyddio'r cyfarpar uchod a thrwy ymgynghori (gw. isod), gellid codi ymwybyddiaeth ac amlygrwydd yr Ardal Gadwraeth ac annog datblygu a newid addas. Hyn i gynnwys:

- Ymwybyddiaeth ymysg perchnogion tai a chymuned Aberdyfi.
- Codi ymwybyddiaeth a gwella medrau ar gyfer contractwyr a chrefftwyr lleol, gyda chefnogaeth yn y dyfodol.
- Sicrhau fod datblygu yn cael ei lywio gan ymwybyddiaeth o nodweddion ardaloedd cymeriad arbennig yr ardal gadwraeth, a'i fod yn cydweddu â hwy, ac yn ystyried tystiolaeth arall am nodweddion hanesyddol a sensitifrwydd tirwedd yn y cyffiniau.



62 Mae nifer fawr o fanylion pensaernïol Westhaven dal i fodoli. Gallai ei gynnwys ar y rhestr genedlaethol fod o fudd



63 Dylai canllaw dylunio gynghori ynghylch addasrwydd lliwiau o fewn yr ardal gadwraeth

4.4 Cynaliadwyedd a Gwella Amgylcheddol

- 4.4.1 Ceir arweiniad ynghylch yr arddull cywir ar gyfer cyflwyno gwelliannau effeithlonrwydd ynni, a'r caniatadau angenrheidiol yn Ardaloedd Cadwraeth Eryri, yn y ddogfen: ***Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol***
- 4.4.2 Mae gan Aberdyfi rai cyfleoedd naturiol ar gyfer cynhyrchu ynni ar raddfa fechan. Dylid cefnogi ac annog cynlluniau ynni cynaliadwy lle nad ydynt yn effeithio er gwaeth ar gymeriad arbennig neu fioamrywiaeth yr ardal gadwraeth. Dylid ceisio cyngor ynghylch posibiladau defnyddio pŵer gwynt neu'r haul heb effeithio ar y boblogaeth adar hynod bwysig. Gallai harneisio ynni o nentydd lleol fod yn ddewis.

4.5 Bioamrywiaeth

- 4.5.1 Mae coed yn hanfodol bwysig i'r fioamrywiaeth a'r arwyddocâd esthetaid. Diogelir amrywiaeth o goed gan orchmynion cadw (gw. 8.3). Clustnodwyd coed eraill yn rhai o bwys yn yr ardal gadwraeth (gw. 4.3).
- 4.5.2 Er bod gwybodaeth helaeth am y rhywogaethau bioamrywiol sy'n byw yn aber Dyfi neu'n ymweld â'r lle, ymddengys mai ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael yn hwylus am fywyd gwylt cyffiniau'r pentref ei hun. Dylid achub y cyfle, felly, i ddeall beth sydd yno ar hyn o bryd, a beth ellid ei wneud i'w wella, gan gyfeirio'n neilltuol at unrhyw gyswllt â hiliau/rywogaethau sy'n bwysig i'r ardal SoDdGA.
- 4.5.3 Mae cryn bosibilrwydd y gellid gwella bioamrywiaeth yr ardal gadwraeth. Gallai gweithredu gynnwys, er enghraifft:
- Arolwg ecolegol o'r pentref, gan glustnodi'r safleoedd pwysicaf a mwyaf bioamrywiol.
 - Darparu gwybodaeth ynghylch rhywogaethau y gwyddys eu bod yn yr ardal SoDdGA a allent ddefnyddio tir yn yr ardal gadwraeth hefyd.
 - Darparu cynllun rheoli ar gyfer rhywogaethau gwarchodedig sy'n defnyddio'r ardal gadwraeth.
 - Mewn gwaith adeiladu newydd, defnydd addas o nodweddion megis toeau glaswellt a all wella cynefinoedd bywyd gwylt.



64 Wyneb siop traddodiadol yn Rhos Glan Dyfi




65 Tai pêr yn Seaview Terrace

- Sicrhau'n gyffredinol y bydd cynigion datblygu'n gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.
- Diogelu coed yn ystod gwaith adeiladu.
- Caniatáu i goed aeddfedu'n ddiymyrraeth.
- Cadw pren marw safadwy a chreu cludeiriau pren marw ar gyfer pryfed a bywyd gwyllt arall.
- Gweithio â phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a sicrhau gweithredu prosiectau gwella'r dirwedd a chreu a gwella cynefinoedd o werth i gadwraeth natur.
- Gwella'r seilwaith gwyrdd mewn modd sy'n darparu ar gyfer anghenion ynni'r ardal heb effaith andwyol ar fioamrywiaeth neu gymeriad yr ardal gadwraeth.


5.0 Ymgynghoriad

5.1.1 Bu drafft Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth yn destun ymgynghoriad i'r canlynol:

- Yn 2021, comisiynodd Grwp Anghenion Cymunedol Aberdyfi y mudiad, Resources for Change, i gynnal arolwg ledled y gymuned er mwyn deall yr anghenion newydd yn sgil pandemig Covid-19. Mae'n fwrriad y bydd yr adroddiad a gyhoeddwyd yn Hydref 2021 yn sail i Gynllun Lle Cymuned mwy cynhwysfawr ar gyfer Aberdyfi



66 Drws capel yr Annibynwyr



Estyniad Arfaethedig i'r Ardal Gadwraeth
1:5000 ar A4

Atodiadau:

Atodiad A - Ffynonellau

Canfuwyd peth wmbredd o wybodaeth a ffotograffau hanesyddol ar wefan Cyngor Cymuned Aberdyfi, a geir yn <https://aberdyfi-council.wales/aberdovey-pictures-from-the-past/>

Mae <https://aberdoveylondoner.com/2019/01/21/the-calvinistic-methodist-chapel-established-1828/> yn ddefnyddiol iawn, hefyd.

Dyma'r prif ffynonellau gwybodaeth o ddeunydd wedi'i gyhoeddi a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r Gwerthusiad hwn:

Fenton, R. (1810), *Tours in Wales (1804–1813)* (ailgyhoeddwyd gan y Cambrian Archaeological Association ym 1917)

Haslam, R., Orbach, J. a Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd* (Yale University Press, London)

Lewis, S. (1849), *A Topographical Dictionary of Wales* (London)

Pennant, T. (1781), *The Journey to Snowdon* (London) Pugh, E. (1816), *Cambria Depicta* (cafwyd mynediad trwy

Roscoe, T. (1853), *Wanderings and Excursions in North Wales* (London)

Smith, B. a Neville George, T. *British Regional Geology – North Wales (HMSO) 1961.*

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (YAG), adroddiad rhif 956 - *Aberdyfi Conservation Area Appraisal*, 2011.